SWYDDOG CYNNAL

Swydd ddisgrifiad

ORIAU GWAITH – 16 awr yr wythnos (oriau hyblyg)

Cytundeb Parhaol

Cyflog – £9.26 yr awr (£7704 y flwyddyn)

Disgrifiad Swydd

Cyffredinol

Mae Cyngor Cymuned Bethesda a Chyngor Cymuned Llandygai yn chwilio am weithiwr cynnal i gasglu ysbwriel, chwynnu ac ymgymryd â thasgau glanweithdra.

Oriau Gwaith

Gweithiwr Cynnal am 16 awr yr wythnos (oriau hyblyg)

Lleoliad Swydd

Swyddfa Partneriaeth Ogwen, 26 Stryd Fawr, Bethesda.
Ardal Cyngor Cymuned Bethesda a Llandygai

Prif Ddyletswyddau

- Casglu ysbwriel.
- Chwynnu.
- Ymgymryd â thasgau glanweithdra.
- Dyfrio basgedi crog yn ystod y tymor tyfy
- Goruwchwylio safle Llys Dafydd a Gardd Tan Twr
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n berthnasol a rhesymol

Cefnogaeth

Darperir offer addas i alluogi'r swyddog i weithredu gofynion y swydd yn llawn

Atebolrwydd

Bydd y Gweithiwr Cynnal yn atebol i'r Clerc

Byddwn yn chwilio am berson sydd yn gyrru car, bydd yn ofynnol i ddeilydd y swydd ddefnyddio car eu hunain. Ad-delir costau teithio.